Finance Committee
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I Gadeiryddion yr Ardaloedd Menter

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Mai 2013

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth – Ardaloedd Menter**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwahodd pob un o fyrddau'r Ardaloedd Menter i roi tystiolaeth ysgrifenedig i lywio ei ymchwiliad byr i Ardaloedd Menter Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal ymweliadau a gwahodd rhai o'r cadeiryddion i roi tystiolaeth lafar.

## Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Diben yr ymchwiliad hwn yw ystyried y cynnydd a wnaed ym mhob un o'r saith ardal fenter. Mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb arbennig ym mewnbynnau ariannol yr ardaloedd menter a'u hallbynnau disgwyliedig.

Er mwyn cynorthwyo ei ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar unrhyw un o'r pwyntiau a ganlyn, neu ar bob un ohonynt:

- Faint o adnoddau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu targedu at yr Ardaloedd Menter?
- Pa ddylanwad y mae byrddau'r Ardaloedd Menter yn ei gael ar yr adnoddau hynny?
- Beth yw amcanion strategol pob un o fyrddau'r Ardaloedd Menter?
- Beth yw'r cymhellion penodol sydd ar waith i annog busnesau i fuddsoddi a lleoli eu pencadlysoedd ym mhob un o Ardaloedd Menter Cymru?
- Pa allbynnau a chanlyniadau penodol y mae pob un o'r Ardaloedd Menter yn gobeithio eu cyflawni? (gan gynnwys nifer y swyddi a gaiff eu creu, nifer y busnesau a gaiff eu cefnogi, nifer y busnesau a fydd yn cael budd o ostwng ardrethi busnes, a nifer y busnesau sy'n defnyddio lwfansau cyfalaf uwch)
- Pa bethau y mae pob un o'r Ardaloedd Menter wedi'u cyflawni hyd yn hyn?

Ffôn / Tel: 029 20 898149
E-bost / E-mail: Pwyllgorcyllid@cymru.gov.uk

- Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran defnyddio lwfansau cyfalaf uwch, a beth yw'r potensial i ehangu'r defnydd a wneir o'r lwfansau hyn i ragor o Ardaloedd Menter Cymru?
- Beth yw'r effaith ddisgwyliedig ar ardaloedd sy'n ffinio'r Ardaloedd Menter neu sydd y tu allan iddynt?
- Sut y gellir sicrhau bod yr Ardaloedd Menter yn cael yr effaith orau bosibl ar yr economi leol? (gan gynnwys drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi sy'n defnyddio busnesau lleol)
- A yw'r prosesau ar waith i sicrhau bod yr Ardaloedd Menter yn cael eu monitro a'u gwerthuso mewn modd effeithiol?
- Pa ddull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod Ardaloedd Menter Cymru yn creu gweithgarwch economaidd ychwanegol?

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodir uchod, erbyn **dydd Mawrth 4 Mehefin 2013**. Os hoffech gyfrannu ond eich bod yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 029 2089 8409.

Os yw'n bosibl, dylech anfon fersiwn digidol, ar ffurf MS Word neu Destun Cyfoethog, mewn neges e-bost at PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk erbyn **dydd Mawrth 4 Mehefin 2013**.

**Datgelu Gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor.*

*Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisiau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.*

*Bwriad y Pwyllgor yw cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chyhoeddi gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef, ac eithrio sylwadau neu ddata personol sy'n berthnasol i'ch statws fel awdur y dystiolaeth a'r statws yr ydych yn ei ddefnyddio, os o gwbl, i gyflwyno'r dystiolaeth (er enghraifft, teitl eich swydd).*

*Fodd bynnag, os yw cais am wybodaeth (gan gynnwys data personol) yn cael ei gyflwyno o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych, neu ran ohono. Gall hyn gynnwys data personol a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi (yn unol â'r drefn a ddisgrifir uchod).*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am ddatgelu'r*

*ffaith mai chi yw awdur y dystiolaeth dan sylw, mae'n rhaid ichi nodi hyn yn glir, a'ch cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid yma: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir



**Jocelyn Davies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**